

Crynodeb o'r Canlyniadau

Gwybodaeth Ddemograffig

- Derbyniwyd cyfanswm o 351 o ymatebion, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 22%. Cwblhaodd 37% o aelodau'r arolwg ar-lein tra roedd 63% yn dewis cwblhau copïau caled o'r arolwg.
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i Arolwg 18 yn fenywod (74%) ac roedd y gyfradd fwyaf o unigolion rhwng 70 a 79 oed (34%). Nododd dros chwarter o'r ymatebwyr (27%) eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd.

Trafnidiaeth

- Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r Cynllun Teithio Rhatach ac roedd dros 90% o'r rheiny a oedd rhwng 70 a 79 oed wedi clywed am y cynllun.
- Dim ond 12% o'r ymatebwyr a nododd eu bod wedi defnyddio'r cynllun Ceir Cefn Gwlad, gyda nifer uwch o unigolion hŷn yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio. Yn ogystal, roedd 40% o'r rheiny a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn yn ystyried eu bod yn anabl.
- Roedd 71% o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r Cynllun Teithio Rhatach i deithio am ddim ar y bysiau ac roedd 95% o'r rheiny a oedd dros 80 oed wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn. Nododd mwyafrif helaeth o'r unigolion nad oeddent wedi defnyddio gwasanaeth Bwcabus (96%).
- Nododd yr ymatebwyr eu bod yn debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau'n llai aml a nododd 32% o'r ymatebwyr nad ydynt erioed wedi defnyddio'r gwasanaeth. O blith y rheiny a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, rhoddwyd marc o 4 seren allan o 5 ar gyfer y gwasanaethau anabl ar y bysiau gan ychydig yn llai na hanner ohonynt (49%).
- Y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â defnyddio Gwasanaeth Bysiau Sir Gaerfyrddin yn fwy rheolaidd oedd amllder y gwasanaeth (29%), y gwasanaethau sydd ar gael o fewn pellter cerdded hawdd (23%) a newid rhwng bysiau/coetsis/trenau (10%).

- Ystyriwyd bod yr holl ffynonellau gwybodaeth yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio gwasanaethau bysiau yn Sir Gaerfyrddin, Ystyriwyd mai amserlenni printiedig wrth safleoedd bysiau oedd y ffynhonnell fwyaf defnyddiol.

Llyfrgelloedd Teithiol

- Nid yw mwyafrif helaeth o ymatebwyr heb wedi defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol (97%).
- Ymhlith y rheiny a oedd wedi defnyddio'r llyfrgell deithiol, roedd llawer yn fodlon ar y gwasanaeth. Gwnaed rhai sylwadau ynghylch diffyg y wybodaeth gyhoeddus am y llyfrgell deithiol, yr angen am fwy o lyfrau a chynyddu nifer y lleoedd y mae'r gwasanaeth yn ymweld â nhw.
- Dyma'r prif resymau pam nad yw unigolion wedi defnyddio'r llyfrgelloedd teithiol; nid ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at y llyfrgell leol, nid yw'r llyfrgell deithiol yn ymweld â'u hardal, diffyg gwybodaeth am y manau y mae'r fan yn ymweld â hwy ef a phryd, nododd rhai eu bod yn defnyddio dyfeisiau a llyfrau personol, a nododd rhai eu bod yn y gwaith yn ystod ymweliad y llyfrgell deithiol.
- Mynegodd llawer eu bod yn hoffi'r syniad o 'ddull seiliedig ar thema' am y llyfrgelloedd teithiol. Roedd y mwyafrif o'r awgrymiadau o themâu posib yn ymwneud ag iechyd, ffirwydd a llesiant (51%) ac roedd nifer uchel yn ymwneud â garddio (16%) a choginio (15%).
- Roedd ychydig dros fwyaf (52%) o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn hyderus wrth ddefnyddio iPads. Yn ddiddorol, roedd hyder wrth ddefnyddio'r iPads yn lleihau wrth i'r oedran gynyddu.
- Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch y gwasanaethau eraill y gallai'r llyfrgelloedd teithiol eu darparu, megis; Cyngor ar Bopeth, darparu bagiau glas, sesiynau celf a chreffft, gwybodaeth am 'Be sy' mlaen', dysgu sgiliau digidol, darparu lluniaeth ac ymgynghorwyr iechyd.

Cynhwysiant Digidol

- Y dechnoleg a oedd yn cael ei defnyddio fwyaf oedd ffonau symudol a dywedodd 90% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio ffonau symudol ar hyn o bryd. Yn ddiddorol, roedd defnydd o'r holl dechnolegau'n lleihau wrth i'r oedran gynyddu.

- Dyma'r prif resymau dros ddefnyddio'r rhyngwrwyd; anfon a derbyn negeseuon e-bost (72%), siopa ar-lein (58%) a chael mynediad at wybodaeth iechyd ar-lein (56%).
- Nododd 60% o'r ymatebwyr mai'r sesiwn hyfforddiant/cyngor yr hoffent ei chael fwyaf fyddai ymchwilio i hanes teulu. Roedd nifer uchel hefyd wedi dewis sesiynau ynghylch cyfrifiaduron a gliniaduron (39%) a diogelwch ar y rhyngwrwyd (33%).
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r grwpiau oedran mai'r sesiwn hyfforddiant/cyngor yr hoffent ei chael fwyaf fyddai ymchwilio i hanes teulu. Fodd bynnag, nododd y categori 80+ oed mai'r hyn a fyddai o fwyaf o ddiddordeb iddynt fyddai cael cymorth a hyfforddiant o ran defnyddio cyfrifiadur a gliniadur.

Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

- Y cwrs hyfforddiant neu addysg a wnaeth ennyn y diddordeb mwyaf oedd Celf a Chrefft (44%). Yn agos ar ôl hynny yr oedd Cymraeg i Oedolion (30%), llythrennedd digidol (24%) a chysiau ieithoedd tramor (24%).
- Nododd 15% o'r ymatebwyr eu bod yn gofalu am rywun, a dywedodd dros hanner (52%) o'r gofaluwr eu bod yn ymwybodol o Fforwm Gofaluwr Sir Gaerfyrddin. Roedd 75% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn gofalu am rywun nad oeddent yn cael cymorth gan y sefydliadau priodol fel gofaluwr. Y grŵp oedran lle'r oedd y nifer uchaf o ofaluwr oedd y categori oedran 50-59 (25%).
- Nododd yr ymatebwyr y byddai cymorth i helpu i greu C.V. rhagorol, rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael, cynnal mwy o ffeiriau swyddi a mwy o hysbysebion am swyddi sy'n briodol i bobl hŷn yn darparu cymorth ynghylch cyfleoedd gwaith.
- Mae 60% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn byw mewn cymuned sy'n ystyriol o bobl hŷn. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod grwpiau oedran hŷn yn credu eu bod yn byw mewn cymuned sy'n ystyriol o bobl hŷn o gymharu â'r grwpiau oedran iau.
- Mae'r canlyniadau yn dangos bod 35% o ymatebwyr yna gytundeb bod Sir Gaerfyrddin yn gymuned sy'n cefnogi dementia.
- Nododd 21% o ymatebwyr fod yr Awdurdod Lleol ddim yn gwneud popeth o fewn ei allu, yn unol â'i ddarpariaeth gwasanaethau, er mwyn lleihau'r perygl o gael codymau.
- Nododd 16% o'r aelodau eu bod wedi cael codwm yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y rheiny a oedd wedi cael codwm, nid oedd dros hanner (51%) wedi rhoi

gwybod i unrhyw wasanaeth am y digwyddiad. Dim ond 4% o unigolion a gafodd eu hasesu gan y 'rhaglen atal codymau'. Nododd 87% o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael digon o gymorth er mwyn lleihau'r perygl o gael codymau yn y dyfodol.

- Nododd 17% o'r ymatebwyr eu bod wedi profi arwahanrwydd cymdeithasol. Roedd 1 allan o bob 3 oedolyn yng ngrŵp oedran 50 a 59 wedi profi arwahanrwydd cymdeithasol, ac roedd 36% o'r rheiny a nododd eu bod wedi profi arwahanrwydd cymdeithasol yng ngrŵp oedran 60-69.
- Nododd 22% o'r ymatebwyr eu bod wedi profi unigrwydd. O blith y 22%, roedd 33% o'r unigolion hyn rhwng 70 a 79 oed. Yn ogystal, gwelwyd hefyd bod 39% o'r unigolion hynny a oedd wedi profi unigrwydd yn ystyried bod ganddynt anabledd.
- Nododd 31% o ymatebwyr eu bod yn anghytuno (23%) neu'n anghytuno'n gryf (8%) bod digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yn y sir. Gwnaed llawer o awgrymiadau o ran mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd, megis; cynyddu nifer y digwyddiadau, cynyddu nifer y lleoedd i gwrdd â phobl, ymgysylltu cymunedol, ymweliadau cartref gan weithwyr proffesiynol a darparu rhagor o wybodaeth am sut y gall gwirfoddolwyr helpu pobl unig.